

2022/23

Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg



HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

Cynnwys

Cyflwyniad i Safonau'r Gymraeg	3
Ein Hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg	5
Goruchwyliaeth Fewnol	7
Hyrwyddo'r Safonau	9
Polisi Sgiliau	10
Safonau'r Gymraeg Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	
• Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	11
• Safonau Llunio Polisi	14
• Safonau Gweithredol	15
• Safonau Cadw Cofnodion	17

Cyflwyniad i Safonau'r Gymraeg

BTP yw'r gwasanaeth plismona sy'n gyfrifol am seilwaith y rheilffyrdd ledled y Deyrnas Unedig. Fel sefydliad cenedlaethol, mae sawl adran a swyddogaeth gymorth, gan gynnwys ein gwasanaeth trin galwadau, ein pencadlys strategol a'n darpariaeth ystadau, y tu allan i Gymru.

Mae Is-adran Cymru BTP yn gyfrifol yn ddaearyddol am ddarparu ein gwasanaethau ledled Cymru a'r Gororau. Mae ganddo sefydliad o **126 staff**, cymysgedd o Swyddogion Heddlu (pob rheng hyd at Uwcharolygydd), Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a staff yr Heddlu.

Yn ogystal â hyn, mae **67 aelod** pellach o swyddogaethau cymorth yn gweithio o swyddi yng Nghymru ac yn cynnwys swyddogaethau Heddlu Arbenigol a'r tîm Rheoli Gwybodaeth.

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau iaith bellach ond yn hytrach rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau iaith genedlaethol.

Pwrpas Safonau'r Gymraeg yw cynyddu a normaleiddio'r defnydd o'r iaith fel y gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio sy'n nodi pa rai o'r 171 o Safonau yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i BTP, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu. O 30 Mawrth 2017 ymlaen, roedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i BTP gydymffurfio â safonau iaith newydd.



SWYDDOG CYMORTH
CYMUNEDOL YR HEDDLU
POLICE COMMUNITY
SUPPORT OFFICER

Ein Hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg

Rydym yn parhau i gymryd ein cyfrifoldeb tuag at y Gymraeg o ddifrif ac yn gweld Safonau'r Iaith Gymraeg fel cyfle i atgyfnerthu hyn ac i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod yn llawn hawl unigolion i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ni fyddwn yn trin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddwn yn darparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru.

Ein nod yw cydymffurfio â'r gofyniad deddfwriaethol a pharhau i weithio tuag at ddod yn sefydliad cwbl ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys cynnig dewis iaith a chwarteisi ieithyddol yn rheolaidd i bawb sy'n cysylltu â ni ac, yn ogystal, i'n staff ein hunain sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno gwneud hynny yn y gweithle.

Mae'r Llu yn parhau i fuddsoddi amser ac arian i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac er bod mwy i'w wneud, rydym wedi gwneud cynnydd pellach ers cyflwyno adroddiad monitro'r llynedd.

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pobl yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl, ond rydym yr un mor realistig nad ydym bob amser yn gwneud pethau'n iawn. Er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaethau iaith Gymraeg, rydym yn annog ein cymunedau'n weithredol i ddweud wrthym beth rydym yn ei wneud yn dda a lle gallwn wella.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r prosesau sydd ar waith ar draws y Llu i hyrwyddo ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac yn nodi rhai o'r gwelliannau rydym yn gweithio tuag atynt.



Goruchwyliaeth Fewnol

Mae trefniadau llywodraethu yn parhau ar waith i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg. Cefnogir Bwrdd Strategol, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Brif Gwnstabl y Llu, Alistair Sutherland QPM, gan arweinydd tactegol, yr Uwcharolygydd Andy Morgan, sy'n Gomander Is-adrannol BTP dros Gymru.

Yn sail i'r strwythur hwn mae'r Grŵp Gweithredol, dan gadeiryddiaeth yr Uwcharolygydd Morgan. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am ddatblygu proses hunanarolygu archwiliadwy ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod darpariaeth gwasanaeth mewnol ac allanol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y grŵp yn adrodd ar ei ganfyddiadau ac unrhyw ddiffygion yn uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Bydd y broses hon yn sicrhau bod BTP yn parhau i olrhain a chofnodi cynnydd yn erbyn EIN safonau, a bod cynnydd yn cael ei gynnal. Bydd y grŵp hefyd yn adrodd lle nad yw'n gallu dylanwadu ar gydymffurfiaeth.

Mae'r Llu wedi ymrwymo i ddarparu cyfieithiadau Cymraeg a darparu cyllid datblygu i gefnogi ein darpariaeth gwasanaeth Cymraeg.





HEDDLU
TRAFNIDIAETH PRYDEINIG
BRITISH TRANSPORT POLICE

HEDDLU
POLICE

5273

Hyrwyddo'r Safonau

Gan ragweld gweithredu Safonau'r Gymraeg, datblygodd y Llu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr i hyrwyddo gweithredu'r safonau'n fewnol. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd bob blwyddyn, ac fe'i cynhelir ar y 7fed o Ragfyr, sef Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg, a phen-blwydd pasio mesur yr Iaith Gymraeg yn y Senedd.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni rannu ein gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg ar draws y lluoedd a rhoi gwell dealltwriaeth o'r safonau i'n holl staff, ac o'n cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth dwyieithog gwirioneddol i bobl Cymru.

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi'r gwelliannau rydym yn parhau i weithio tuag atynt, a phan fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu i hyrwyddo'r gwelliannau tuag at ddarparu gwasanaeth dwyieithog gwirioneddol yng Nghymru.

Canolbwyntiodd y strategaeth gyfathrebu fewnol ar ein uchelgeisiau i:

- Cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion a staff o'r safonau
- Helpu i sicrhau bod BTP yn cydymffurfio â'r safonau
- Rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i swyddogion a staff ar sut mae'r safonau'n cael eu cymhwyso
- Tawelu meddyliau swyddogion, staff a rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau'r safonau
- Hysbysu swyddogion, staff a rhanddeiliaid ble gallant gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau

Mae gennym nifer fach o swyddogion a staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae pob un yn ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth ynghylch materion yr iaith Gymraeg i gydweithwyr eraill yn ogystal â rhanddeiliaid. Nid yw pob un o'n staff yn gallu siarad na ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, felly mae gennym drefniadau ar waith i ddarparu cymorth cyfieithu pan fo angen ac rydym yn datblygu cynllun hyfforddi i hysbysu a pharatoi'r holl staff (nid yn unig y rhai sy'n gweithio yng Nghymru), ar sut i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i siaradwyr Cymraeg.

Bydd y strategaeth gyfathrebu allanol yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r safonau
- Hysbysu aelodau'r cyhoedd bod holl wasanaethau BTP ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
- Rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd na fydd mynediad at ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg yn arwain at dderbyn gwasanaeth gwaeth
- Hysbysu aelodau'r cyhoedd ble y gallant gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad

Mae sianeli allanol wedi parhau i gael eu gwella, gan gynnwys porth gwe'r Cartref Ar-lein Sengl a sianeli cyfryngau cymdeithasol y Llu i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ymhellach. Mae'n drueni bod ein monitro mewnol o bryd i'w gilydd yn canfod rhywfaint o gynnwys nad yw'n gwbl ddwyieithog, ond mae'r un broses honno wedyn yn sicrhau bod unrhyw wallau'n cael eu cywiro.

Polisi Sgiliau

Mae'r Llu'n cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil ochr yn ochr â "sgiliau plismona" eraill.

Cynigir hyfforddiant gan ystyried anghenion pob unigolyn, a allai gynnwys cyfuniad o:

- Cyrsiau hyfforddi mewnol
- Dysgu wedi'i hunangyfarwyddo
- Darpariaeth hyfforddi a ariennir yn allanol
- Datblygiad parhaus sgiliau iaith Gymraeg



Safonau'r Gymraeg Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

**Ein nod yw cyrraedd ein Safonau
Cyflenwi Gwasanaeth drwy ymrwymiad
dilys i gyrraedd nifer o fesurau
allweddol, gan gynnwys:**

- Croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi yn ein hymateb.
- Mae troednodiadau ar waelod pob e-bost a phennawd llythyr yn egluro ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn nodi eu gallu i siarad Cymraeg ar droedynnau e-bost.
- Bydd llofnodion e-bost, negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' a negeseuon llais i brif rifau llinell dir yn ddwyieithog.
- Bydd pob galwr yn y Gymraeg yn cael ei drin â chwarteisi a pharch a byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol yn y Gymraeg.
- Pan fyddwn yn cysylltu â phobl am y tro cyntaf ac nad ydym yn ymwybodol o'u dewis iaith, byddwn yn ceisio gofyn iddynt a ydynt yn dymuno cyfathrebu â ni yn y Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol i gyswllt e-bost, llythyr a ffôn.
- Byddwn yn anelu at gofnodi manylion y rhai â ni sy'n ein hysbysu eu bod am gyfathrebu yn y Gymraeg, fel nad oes rhaid iddynt ddatgan eu dewis iaith bob tro.
- Ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus, digwyddiad a chynhadledd a gynhelir yng Nghymru, byddwn yn ystyried yr angen i ddarparu cynnwys yn Gymraeg. Gofynnir i unigolion roi gwybod i ni am eu dymuniad i gyfathrebu yn y Gymraeg er mwyn i ni allu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a pharatoi'r holl waith papur perthnasol arall.
- Bydd unrhyw arwyddion newydd y Llu yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Bydd pob dogfen safonol a ddefnyddir yng Nghymru yn ddwyieithog neu bydd ar gael yn y Gymraeg ar gais.
- Mae gwefan y Cartref Ar-lein Sengl, sydd wedi disodli ein system flaenorol, yn hollol ddwyieithog.

Safonau'r Gymraeg Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Nid yw'r Heddlu wedi derbyn unrhyw gŵynion ffurfiol yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'n Safonau Cyflenwi Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae monitro mewnol yn cadarnhau nad ydym yn dal i allu darparu gwasanaeth ateb ffôn cwbl ddwyieithog.

Mae hyn wedi'i adrodd i dîm Cydymffurfiaeth Comisiynydd y Gymraeg, ac mae gwaith ar y gweill i sefydlu ateb parhaol i hyn erbyn diwedd 2024.





HEDDI
TRAFNIDIAETH PRY
BRITISH TRANSPORT

Safonau Llunio Polisi

Safonau Llunio Polisi

Ein nod yw bodloni ein Safonau Llunio Polisi drwy nifer o fesurau gan gynnwys:

- Pan fydd polisi'au neu brosiectau'n cael eu sefydlu neu eu hadolygu, maent yn cael eu rhoi dan broses 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb' (EIA) fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys asesiad o oblygiadau'r iaith Gymraeg a nodi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Bydd ymgynghori ac ymchwil yn archwilio cyfleoedd i wahodd barn ar sut y gallem hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.

Nid yw'r Llu wedi derbyn unrhyw gŵynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'n Safonau Llunio Polisi.



Safonau Gweithredol

Ein nod yw bodloni ein Safonau Gweithredol drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Gall aelodau staff sydd am dderbyn dogfennau AD yn y Gymraeg neu gynnal prosesau AD yn y Gymraeg wneud hynny nawr.
- Pan fyddwn yn hysbysebu am unrhyw swydd, byddwn yn mynd trwy broses i asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd honno.
- Bydd prosesau recriwtio ar gyfer staff yn cael eu cynnig yn ddwyieithog.
- Bydd pob aelod staff newydd sy'n ymuno â'r Llu yn cael eu briffio am y gofynion a'r prosesau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn ystod yr hyfforddiant ymsefydlu.
- Mae hyfforddiant iaith Gymraeg hyd at Lefel 1, bellach yn orfodol i bob aelod o staff sydd wedi'i leoli yng Nghymru, ac mae cyrsiau ar gyfer lefelau pellach ar gael i staff os ydynt am ddatblygu eu sgiliau iaith.
- Mae arwyddion gweithleoedd BTP yng Nghymru yn ddwyieithog.

Nid yw'r Llu wedi derbyn unrhyw gŵynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'n Safonau Gweithredol. **Fodd bynnag, mae ein monitro mewnol wedi canfod nad oedd swyddi yng Nghymru wedi'u hysbysebu'n ddwyieithog, ac mae gwaith pellach yn mynd ymlaen i sicrhau bod hyn ar waith ar gyfer yr holl recriwtio yn y dyfodol.**





Safonau Cadw Cofnodion

Er mwyn bodloni gofynion ein safonau cadw cofnodion, byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth isod yn flynyddol:

Nifer y cyflogeion sy'n gweithio yng Nghymru i BTP sydd â'r sgiliau iaith Gymraeg canlynol

Lefel 1 – 85

Lefel 2 – 6

Lefel 3 – 0

Lefel 4 – 0

Lefel 5 – 10

Dim Sgiliau – 80

Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsgiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn y Gymraeg yn ystod 2022/23: Fe wnaeth 85 gwblau'r hyfforddiant a'r asesiad Lefel 1 ar-lein (mewnol).

Nifer yr aelodau staff a wisgodd fathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

10

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod 2022/23 a gafodd eu categorio fel swyddi lle'r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol:

0

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod 2022/23 a gafodd eu categorio fel swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg wrth gael eu penodi i'r swydd:

Cynghorir pob recriwt newydd o Staff a Swyddogion ei bod yn ofynnol iddynt ymgymryd â hyfforddiant iaith Lefel 1 – o leiaf.

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod 2020/21 a gafodd eu categorio fel swyddi lle'r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol: 0 – fodd bynnag, roedd hwn yn gamgymeriad ac mae ein Tîm Recriwtio yn ei gywiro.

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod 2022/23 a gafodd eu categorio fel swyddi lle nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol:

0

Cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn:

0

Rydym wedi sefydlu polisi ar gyfer delio ag unrhyw gŵynion ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac mae hwn bellach ar gael ar ein system Cartref Ar-lein Sengl. Bydd unrhyw gŵynion a dderbynnir hefyd yn cael eu huwchgysfeirio ar unwaith i'r Bwrdd Strategol i'w codi a'u goruchwyllo.



HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

2022/23

Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg